Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Ardudwy
# Dyffryn Ardudwy
# Gwynedd
# LL44 2EP

**Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 18/11/2014**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy ym mhentref Dyffryn Ardudwy yng Ngwynedd.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Dyffryn Ardudwy a Thalybont.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.  Mae nifer y disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol wedi codi ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf.  Mae 62 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd ac yn cael eu haddysgu mewn tri dosbarth cymysg eu hoedran.

Mae 10% o ddisgyblion yr ysgol yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim ar hyn o bryd, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.  Mae 18% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.  Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.  Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed.  Mae tua 22% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac yn derbyn cymorth o fewn yr ysgol, gan gynnwys ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2008.  Mae'r Pennaeth yn ei swydd ers mis Ionawr 1997, ond mae hefyd yn Bennaeth Strategol ar ysgol gyfagos arall ers Ionawr 2014.  Bu newid sylweddol i'r staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dyffryn Ardudwy yn 2014-2015 yw £4,443.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936.  Mae Ysgol Dyffryn Ardudwy yn safle 39 o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
- bod safonau mathemateg llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda;
- bod ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol; a
- bod gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Fodd bynnag:

- mae diffyg hyder a geirfa Gymraeg yn cyfyngu ar allu tua hanner y disgyblion ar draws yr ysgol i ddeall ac i drafod yr hyn maent yn ei ddarllen;
- bu lefelau presenoldeb yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am ddwy o'r pedair blynedd ddiwethaf; ac
- nid yw'r ysgol yn cynllunio ystod lawn o gyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod gan y pennaeth ddarlun priodol o gryfderau a gwendidau'r ysgol, yn seiliedig ar dystiolaeth;
- bod gan yr ysgol nifer briodol o staff sy'n cyfrannu'n addas at anghenion y disgyblion;
- bod staff y Cyfnod Sylfaen yn cydweithio'n effeithiol; a
- bod gan yr ysgol bartneriaethau niferus sy'n cyfrannu'n briodol at wella safonau a lles y disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinyddiaeth strategol yr ysgol yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd;
- nid oes trefniadau bwriadus a rheolaidd ar waith sy'n rhoi cyfleoedd i'r holl staff gydweithio i gynllunio fel tîm ac i osod strategaeth glir ar gyfer gwelliant; ac
- nid yw'r cynllun datblygu yn cael ei fonitro'n ddigon effeithiol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau llafar a darllen Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Codi lefelau presenoldeb y disgyblion

A3 Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn ateb gofynion llawn y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2, gan gynnwys datblygu medrau TGCh y disgyblion

A4 Gwella gweithdrefnau arweinyddiaeth gan sicrhau bod rôl pob aelod staff wedi ei diffinio'n glir, a bod pob un yn atebol ac yn cydweithio'n effeithiol yn y broses hunanarfarnu a gwella ansawdd

A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr yn y weithdrefn hunanarfarnu a sicrhau bod holl ddogfennau'r ysgol yn bodloni gofynion statudol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir o blant yr oedran hwn ymhob deilliant ar fynediad i'r ysgol. Fodd bynnag, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mewn lleiafrif o wersi yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cyfoedion ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar. Mae llawer ohonynt yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus, a mynegi eu hunain yn glir ac mewn iaith sy'n addas i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn trafod eu syniadau'n glir ac yn frwdfrydig, gan ddefnyddio geirfa benodol o fewn cyd-destun y dasg.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ddarllen ar goedd gan wneud hynny'n glir ac yn ystyrlon. Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau trafod llyfrau ac yn gwneud cynnydd addas yn eu darllen. Ar y cyfan, maent yn ynganu geiriau'n gywir ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Er hynny, dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n dangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn maent yn ei ddarllen.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Mae mwyafrif yn cyfathrebu'n briodol ac yn ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig yn Saesneg. Fodd bynnag, mae diffyg geirfa a chystrawen chwithig yn cyfyngu ar allu mwyafrif y disgyblion i ddatblygu eu syniadau'n ddeallus trwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn medru darllen yn briodol yn Saesneg gan drafod y cynnwys y llyfr yn hyderus a mynegi barn yn synhwyrol. Fodd bynnag, nid yw'r un cynnydd i'w weld yn y Gymraeg. Mae diffyg hyder a phrinder geirfa yn cyfyngu ar allu tua hanner y disgyblion i ddeall ac i drafod yr hyn a ddarllenwyd. Fodd bynnag, wrth ymchwilio i destun penodol, mae llawer o ddisgyblion yn medru cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau yn lled effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu'n briodol ac yn annibynnol. Maent yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gyson. Mae ychydig o ddisgyblion gallu uwch yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n effeithiol i gyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gwaith ysgrifenedig yn llwyddiannus yn Saesneg gan baragraffu eu gwaith yn gyson a defnyddio geirfa eang i gyfoethogi eu gwaith. Enghraifft o hyn yw'r gwaith

creadigol ar y 'Snow Spider'. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau ysgrifennu i gofnodi yn estynedig mewn ystod o gyd-destunau ar draws y pynciau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio cystrawen chwithig yn eu gwaith ysgrifenedig Cymraeg. Mae diffyg geirfa yn amharu ar allu ychydig o ddisgyblion rhag datblygu eu gwaith yn synhwyrus. Mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu'r mwyafrif o ddysgwyr i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gallu ymdrin ag ystod eang o weithgareddau rhif yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn gallu ymdrin â gweithgareddau datrys problemau syml a gwaith pen yn briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu data'n effeithiol gan drosglwyddo'r wybodaeth i ffurf graff. Enghraifft o hyn yw'r graff sy'n cofnodi tywydd dros gyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y meysydd dysgu eraill.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llawer o ddisgyblion mewn gwersi a llyfrau mathemateg yn dda, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau cyfrifo yn gywir mewn ymchwiliadau. Maent yn defnyddio ystod o fesurau mesur priodol yn hyderus yn eu gwaith gwyddonol wrth fesur hyd cysgod ar wahanol amseroedd o'r dydd. Ar y cyfan, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg ar draws y cwricwlwm yn addas.

Nid oes gan lawer o ddisgyblion y medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i ymateb yn llawn i'r cwricwlwm.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol yn 2014 ar y deilliant disgwyliedig yn y 25% isaf ar gyfer y dangosydd Cyfnod Sylfaen ac ar gyfer iaith llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mae yn yr 50% is ar gyfer datblygiad mathemategol.

Mae perfformiad ar y deilliant uwch yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemateg. Mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg wedi bod yn y 25% isaf am y tair bynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf wedi amrywio. Yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, ac ar wahân, yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella ymhob pwnc craidd.

Yn 2014, roedd y canran a gyrhaeddodd y lefelau uwch na'r disgwyl hefyd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am y tair blynedd flaenorol. Yn ystod yr un cyfnod, amrywiodd y perfformiad mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Nid oes patrwm arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well mewn iaith ar y lefelau uwch. Nid oes patrwm arwyddocaol rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt â'r hawl.

### Lles: Digonol

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta, yfed a chadw'n iach. Mae pob disgybl yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am ddwy o'r pedair blynedd diwethaf. Mae prydlondeb disgyblion yn briodol.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn canolbwyntio'n dda wrth iddynt weithio ar dasg ond nid yw medrau llawer o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 i weithio yn annibynnol wedi datblygu'n llawn. Nid yw disgyblion hŷn yr ysgol yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae pob disgybl yn groesawgar iawn ac yn dangos parch tuag at gyfoedion ac oedolion. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn derbyn cyfrifoldebau'n gydwybodol o fewn cymuned yr ysgol drwy'r cynllun bydis buarth. Maent yn cyfrannu'n briodol at fywyd yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r ffynnon ddŵr a brynwyd er mwyn sicrhau lles y disgyblion. Mae disgyblion hefyd yn cefnogi elusennau lleol ac ehangach yn gydwybodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu priodol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r profiadau hyn yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Serch hynny, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r ddarpariaeth yn bodloni holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Nid yw'r ysgol yn cynllunio ystod lawn o weithgareddau er mwyn datblygu medrau TGCh y disgyblion yn briodol ar draws y cwricwlwm. Prin iawn yw'r cyfleoedd i staff ddod ynghyd i drafod cynlluniau, strategaethau dysgu, polisïau a threfn adborth. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael mynediad llawn i gwricwlwm sy'n adeiladu'n systematig. Mae'r ysgol wedi ymgorffori elfennau o'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn effeithiol yng nghynlluniau'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gadarn ac yn galluogi'r disgyblion i ddysgu am ddiwylliant eu hardal leol a Chymru gyfan yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw gwaith celf y disgyblion sy'n seiliedig ar arddull yr arlunydd Ogwyn Davies.

Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am faterion dinasyddiaeth fyd-eang trwy waith thema'r dosbarthiadau. Enghraifft ddiddorol o hyn yw'r gwaith ar Fotswana.

Mae ystod briodol o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth disgyblion am bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy, gan gynnwys ailgylchu ac arbed ynni.

**Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd yr addysgu yn briodol ar draws yr ysgol gydag elfennau da ar frig y Cyfnod Sylfaen a gwaelod cyfnod allweddol 2. Yn y gwersi lle mae'r addysgu ar ei orau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae'r cyflwyniadau'n fywiog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n ofalus ac fe roddir sylw priodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Serch hynny, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn gyson o fewn y gwersi. Nid yw'r tasgau bob amser yn herio disgyblion o allu uwch nac yn annog disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, yn enwedig ar frig yr ysgol. Mae cydweithio effeithiol iawn rhwng y staff addysgu a'r cymorthyddion sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu ac yn cefnogi unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn llwyddiannus.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol yn datblygu'n addas. Mae'r athrawon yn rhannu nodau addysgol yn gyson gyda'r disgyblion ac mae rhai o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn dechrau llunio eu nodau addysgol eu hunain. Lle mae'r asesu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynnig adborth llafar cadarn ac mae disgyblion yn cymryd rôl weithredol wrth werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac, yn gyffredinol, yn cynnig sylwadau adeiladol. Mae hyn oll yn cynorthwyo'r disgyblion i wybod sut i wella safon eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae strategaethau cadarn ar gyfer asesu gwaith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau ar gyfer asesu'r dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn ddigon miniog. Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio system electronig i olrhain cynnydd disgyblion, ond nid yw'n defnyddio canfyddiadau'r asesu yn ddigon effeithiol i osod targedau er mwyn gwella safonau.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi cefnogaeth dda i holl ddisgyblion yr ysgol. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo yfed a bwyta'n iach.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol i adnabod a bodloni anghenion dysgu'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn elwa o gefnogaeth gan wasanaethau arbenigol fel seicolegydd addysg a therapydd iaith a lleferydd. Mae'r cysylltiadau rheolaidd gyda'r heddwas cymunedol yn cefnogi'r gynhaliaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol trwy drafod elfennau o ddiogelwch disgyblion a diogelwch ar y rhyngrwyd.

Mae staff yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn briodol.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn arwain gweithdrefnau cefnogaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff yn darparu cefnogaeth addas ar gyfer y disgyblion hyn ac yn sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae cymorthyddion dysgu o fewn y dosbarthiadau yn darparu cefnogaeth werthfawr, ac mae'r ysgol yn cynllunio strategaethau ymyrraeth effeithiol i ateb gofynion penodol pob disgybl. Mae cynlluniau addysg unigol addas yn eu lle ac mae'r trefniadau ar gyfer adolygiadau ar y cyd â rhieni yn briodol. Serch hynny, nid yw'r disgyblion yn cymryd rhan digon gweithredol yn y broses o lunio ac adolygu cynnydd yn erbyn y targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn un gofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn effeithiol.

Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl, ac mae ethos cefnogol ymysg y staff yn sicrhau ymddygiad da ar draws yr ysgol. Mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw priodol drwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, amser cylch a gwaith thema. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wneir ar Affrica.

Caiff yr adeiladau a'r safle eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r adeilad o ansawdd priodol ac yn cael ei ddefnyddio'n addas. Mae arddangosfeydd o waith disgyblion ar waliau'r coridorau yn dathlu gwaith a llwyddiannau'r disgyblion ac yn hybu dysgu effeithiol. Mae digon o adnoddau o ansawdd priodol yn yr ysgol a gwnaiff y disgyblion y defnydd gorau ohonynt.

Mae ardaloedd allanol yr ysgol yn eang ac yn annog y disgyblion i werthfawrogi treftadaeth hanesyddol yr ardal. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wnaed ar y gromlech leol. Fodd bynnag, nid yw ardal allanol y Cyfnod Sylfaen wedi datblygu'n llawn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

O ganlyniad i'r newid diweddar yn y sefyllfa staffio, nid yw arweinyddiaeth strategol yr ysgol yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r holl staff yn llwyddo i greu ethos cynhwysol a chartrefol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn elwa ar brofiadau dysgu dychmygus a chreadigol. O ganlyniad i'r penodiadau staff diweddar, nid yw rolau a chyfrifoldebau'r staff wedi eu diffinio'n glir. Cynhelir cyfarfodydd staff yn achlysurol, ond nid yw'r cyfarfodydd yn cyfeirio'n ddigonol at drafodaethau yn ymwneud â safonau a deilliannau disgyblion. O ganlyniad, prin yw'r wybodaeth sydd gan yr athrawon am berfformiad ac anghenion yr ysgol. Nid oes trefniadau bwriadus a rheolaidd yn eu lle sy'n rhoi cyfleoedd i staff gydweithio, i gynllunio fel tîm, nac i

osod strategaeth glir ar gyfer gwelliant. Serch hynny, o dan arweiniad y pennaeth cynorthwyol, mae staff y Cyfnod Sylfaen bellach yn cydweithio'n effeithiol ac mae trefn a strwythur pendant yn dechrau datblygu yn yr adran hon.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer mwyafrif y staff sy'n cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd addas wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn ymroddgar wrth gefnogi'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn derbyn gwybodaeth lawn gan y pennaeth am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae ychydig o'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol i roi cefnogaeth ac i ehangu eu dealltwriaeth o safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Serch hynny, nid ydynt yn cyfrannu'n strategol at y broses hunanarfarnu ac nid ydynt yn bodloni pob un o'u dyletswyddau statudol yn llawn.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth yn gwneud defnydd addas o ystod o weithdrefnau ar gyfer arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad disgyblion. Mae ganddi ddarlun priodol o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella, yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys perfformiad disgyblion, arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a safbwyntiau disgyblion a rhieni. Mae'n rhoi ffocws priodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Serch hynny, nid yw'r pennaeth yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn chwarae rhan strategol ym mhrosesau arfarnu'r ysgol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl sy'n adnabod cryfderau'r ysgol ynghyd â nifer o'r meysydd sydd angen eu gwella. Yn gyffredinol, mae'r deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu yn cael eu defnyddio'n briodol i bennu targedau a gosod blaenoriaethau addas ar gyfer gwella.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol, ynghyd â chyfrifoldebau, costau, amserlen weithredu a dangosyddion llwyddiant. Serch hynny, nid yw'r blaenoriaethau bob amser yn ddigon penodol nac yn ddigon meintiol mewn mannau. O ganlyniad, nid yw'n bosibl i arweinwyr yr ysgol ei fonitro'n ddigon effeithiol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn ystyrlon yn erbyn y dangosyddion llwyddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau niferus sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion yn briodol. Mae rhieni a chyfeillion yr ysgol yn weithgar ac yn cyfrannu symiau sylweddol sy'n gymorth i brynu adnoddau sy'n cefnogi'r cwricwlwm yn dda.

Mae partneriaeth lewyrchus yn datblygu gydag ysgolion cynradd cyfagos trwy gydweithio pwrpasol a rhannu arbenigedd. Serch hynny, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y partneriaethau hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae cysylltiadau â'r gymuned yn datblygu'n addas ac yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion.  Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn dda.  Mae hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder at eu hardal leol.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda'r cylch meithrin.  Mae'r cydweithio agos yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen.  Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gyda'r ysgol uwchradd ac mae trefniadau pontio effeithiol a'r cyswllt gyda phrosiectau cwricwlaidd yn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Er bod trefniadau dalgylchol wedi sicrhau safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn briodol mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn y gorffennol, nid yw'r arfer hon yn digwydd yn gyfredol.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff sy'n cyfrannu'n addas at anghenion y disgyblion.  Gwneir defnydd effeithiol o amser ac arbenigedd cymorthyddion addysgu i gefnogi anghenion disgyblion unigol a grwpiau.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad, sy'n ymateb i anghenion datblygiad proffesiynol yr athrawon a blaenoriaethau'r ysgol.  Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ar faich gwaith athrawon.

Mae'r ysgol wedi dechrau cydweithio ag ysgolion cynradd o fewn y dalgylch i rannu arfer dda mewn dulliau addysgu cyfredol.  Mae hyn wedi arwain at wella safonau'r addysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r grant amddifadedd i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion.  Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa gyllidol ac yn ymdrechu'n galed i reoli'r gwariant yn effeithiol.  Mae trefniadau staffio newydd wedi cael effaith sylweddol ar y gyllideb ond erbyn hyn, mae'r sefyllfa ariannol yn fwy sefydlog.  Mae defnydd priodol o grantiau, a chyfraniad y gymdeithas rieni, yn ychwanegu'n sylweddol at y cyllid ac yn cyfoethogi'r ystod o adnoddau a'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn briodol.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612189 - Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 52 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.5 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 7 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 42.9 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 7 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 100.0 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 28.6 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 7 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 42.9 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | 11.1 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 7 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 71.4 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612189 - Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 52 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.5 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 10 | 14 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.0 | 90.0 | 92.9 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | * |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 14 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 80.0 | 90.0 | 92.9 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | * |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 20.0 | 20.0 | 21.4 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 13 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 80.0 | 80.0 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | * |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 20.0 | 0.0 | 23.1 | * |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 14 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 92.9 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | * |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 40.0 | 30.0 | 28.6 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 4 | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 14 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | * |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 50.0 | 20.0 | 21.4 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 29 | 29<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 29 | 27<br>93% | 2<br>7% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 29 | 29<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 29 | 29<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 29 | 29<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 29 | 28<br>97% | 1<br>3% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 29 | 28<br>97% | 1<br>3% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 29 | 29<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 29 | 27<br>93% | 2<br>7% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 29 | 28<br>97% | 1<br>3% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 29 | 21<br>72% | 8<br>28% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 29 | 29<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 10 | 1<br>10% | 6<br>60% | 2<br>20% | 1<br>10% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 10 | 4<br>40% | 6<br>60% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 10 | 4<br>40% | 4<br>40% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 10 | 1<br>10% | 8<br>80% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 10 | 0<br>0% | 7<br>70% | 1<br>10% | 0<br>0% | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 10 | 2<br>20% | 5<br>50% | 2<br>20% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 10 | 3<br>30% | 6<br>60% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 10 | 1<br>10% | 5<br>50% | 2<br>20% | 0<br>0% | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 1<br>10% | 8<br>80% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 0<br>0% | 9<br>90% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 10 | 2<br>20% | 7<br>70% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 8 | 1<br>12% | 1<br>12% | 2<br>25% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 1<br>10% | 5<br>50% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 10 | 3<br>30%<br>62% | 5<br>50%<br>31% | 2<br>20%<br>4% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 9 | 1<br>11%<br>44% | 6<br>67%<br>39% | 2<br>22%<br>7% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 10 | 1<br>10%<br>56% | 8<br>80%<br>39% | 1<br>10%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 8 | 0<br>0%<br>42% | 2<br>25%<br>34% | 1<br>12%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 0<br>0%<br>53% | 4<br>40%<br>38% | 2<br>20%<br>5% | 4<br>40%<br>1% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The school is well run. | 10 | 1<br>10%<br>61% | 5<br>50%<br>32% | 1<br>10%<br>3% | 2<br>20%<br>2% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Iona Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ann Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.